Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

08 Hydref 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n bwriadu eu gosod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym am ar 9 Hydref 2021, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm er gwybodaeth i chi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021.

Mae'r Rheoliadau yn dod i rym ar 9 Hydref 2021, o fewn 21 diwrnod o gael eu gosod. Mae peidio â chadw at y confensiwn 21-diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym ar y cyfle cynharaf. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn diwygio rheoliad newydd 16A sydd i'w fewnosod yn y prif Reoliadau ar 11 Hydref 20211, cyn i'r rheoliad hwnnw ddod i rym. Mae rheoliad 16A(1), sy'n cael ei adnabod fel darpariaeth y pàs COVID, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am fangreoedd penodol gymryd mesurau rhesymol i sicrhau na chaniateir i oedolyn fod yn bresennol yn y fangre ond os oes ganddo dystiolaeth o faterion

[1] Mae rheoliad 16A i'w fewnosod gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penodol, gan gynnwys brechu â brechlyn awdurdodedig. Mae'r diwygiadau hyn yn ofynnol er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 fel y'i diwygiwyd o 4 Hydref 2021 ac 11 Hydref 2021. Mae rheoliad 2A yn darparu bod person sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn ddarostyngedig i ofynion llai ar gyfer profi am y coronafeirws os yw wedi ei frechu â brechlyn cymwys, ac mae rheoliad 16A o'r prif Reoliadau yn darparu bod tystiolaeth o frechu â'r un brechlyn cymhwysol yn dderbyniol at ddibenion rheoliad 16A(1).

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21-diwrnod hefyd yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar y cyfle cynharaf er mwyn a. darparu eithriad i unigolyn roi'r gorau i ynysu i osgoi peri salwch, anaf neu risg o niwed i unigolyn arall neu i symud i le gwahanol i fyw rhag peri salwch i unigolyn arall; b. ei gwneud yn glir, at ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), ar ba sail y gall olrheinwyr cysylltiadau gael gafael ar wybodaeth am statws brechu unigolyn; c. ei gwneud yn glir yr ystyrir bod pobl sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth crefyddol mewn lleoliad a ddefnyddir fel arfer fel man addoli, yn eistedd at ddiben rheoliad 16A(1) o'r prif Reoliadau; a hepgor y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 10A, sydd wedi dod i ben.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD